

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2022 Rhif 142 (Cy. 45)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif  
5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5)  
2022**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1609 (Cy. 335)) ("y prif Reoliadau") er mwyn—

- darparu bod y Rheoliadau hynny yn dod i ben ar ddiwedd y diwrnod ar 28 Mawrth 2022 (yn hytrach na 25 Chwefror 2022));
- hepgor rheoliad 16A o'r prif Reoliadau, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n gyfrifol am fangre benodol gymryd mesurau rhesymol i sicrhau nad yw oedolion yn y fangre onid ydynt

yn meddu ar yr hyn y cyfeirir ato'n gyffredin fel "pàs COVID" (a gwneud diwygiadau canlyniadol);

- estyn yr esemptiad ar gyfer personau sydd wedi eu brechu'n llawn sy'n gysylltiadau agos i bersonau sy'n cael canlyniad positif am y coronafeirws fel nad oes rhaid i gysylltiadau agos hunanynysu mwyach os ydynt wedi cwblhau cwrs o ddosau o unrhyw frechlyn sydd wedi ei awdurdodi at ddibenion Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2022 (O.S. 2022/126 (Cy. 41)) neu o dan raglen frechu'r Deyrnas Unedig dramor (cyn y diwygiad, dim ond os oeddent wedi cwblhau cwrs o ddosau o frechlyn sydd wedi ei awdurdodi yn y Deyrnas Unedig yr oedd cysylltiadau agos wedi eu hesemptio);
- mewnosod darpariaeth drosiannol sy'n ymwneud â'r diwygiad i'r esemptiad ar gyfer cysylltiadau agos sydd wedi eu brechu'n llawn a dirymu darpariaeth drosiannol sydd wedi ei disbyddu.

Er gwaethaf y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn, mae'r prif Reoliadau yn parhau i ddarparu nad oes unrhyw lefel rhybudd yn gymwys i Gymru. Mae hyn yn golygu nad yw'r un o'r cyfyngiadau a'r gofynion yn Atodlenni 1 i 4 i'r prif Reoliadau yn gymwys (a phe bai rheoliadau yn y dyfodol yn symud Cymru i unrhyw un o lefelau rhybudd 1 i 4, gellid diwygio'r cyfyngiadau a'r gofynion yn Atodlenni 1 i 4 i'r prif Reoliadau cyn iddynt gymryd effaith).

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1011 (Cy. 235)) i newid eu dyddiad dod i ben i 28 Mawrth 2022.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Yn unol â'r Cod, ni chynhaliwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn, oherwydd bod angen eu rhoi yn eu lle ar frys i sicrhau bod cyfyngiadau a gofynion y prif Reoliadau yn parhau i fod yn gymesur.

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2022 Rhif 142 (Cy. 45)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif  
5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5)  
2022**

<i>Gwnaed</i>	<i>16 Chwefror 2022</i>
<i>Gosodwyd Cymru</i>	<i>gerbron Senedd 17 Chwefror 2022</i>
<i>Yn dod i rym</i>	<i>18 Chwefror 2022</i>

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau

---

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

### Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 18 Chwefror 2022.

### Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020

2.—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3, yn lle “25 Chwefror 2022” rhodder “28 Mawrth 2022”.

(3) Yn rheoliad 10—

(a) yn lle paragraff (5)(a) rhodder—

“(a) sydd wedi cwblhau cwrs o ddosau—

(i) o frechlyn awdurdodedig, neu

(ii) o frechlyn o dan raglen frechu'r Deyrnas Unedig dramor,

a bod y diwrnod y cafodd y person y cysylltiad agos a arweiniodd at yr hysbysiad a ddisgrifir yn rheoliad 8(1) yn fwy na 14 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y cwblhaodd y person y cwrs hwnnw o ddosau, a”;

(b) yn lle paragraff (7) rhodder—

“(7) At ddibenion paragraff (5)—

---

(1) O.S. 2020/1609 (Cy. 335) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1610 (Cy. 336), O.S. 2020/1623 (Cy. 340), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/57 (Cy. 13), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/95 (Cy. 26), O.S. 2021/103 (Cy. 28), O.S. 2021/172 (Cy. 40), O.S. 2021/210 (Cy. 52), O.S. 2021/307 (Cy. 79), O.S. 2021/413 (Cy. 133), O.S. 2021/502 (Cy. 150), O.S. 2021/542 (Cy. 154), O.S. 2021/583 (Cv. 160), O.S. 2021/668 (Cy. 169), O.S. 2021/686 (Cy. 172), O.S. 2021/722 (Cy. 183), O.S. 2021/862 (Cy. 201), O.S. 2021/925 (Cy. 210), O.S. 2021/970 (Cy. 228), O.S. 2021/1119 (Cy. 271), O.S. 2021/1131 (Cy. 274), O.S. 2021/1212 (Cy. 303), O.S. 2021/1304 (Cy. 334), O.S. 2021/1363 (Cy. 358), O.S. 2021/1407 (Cy. 366), O.S. 2021/1468 (Cy. 376), O.S. 2021/1477 (Cy. 379), O.S. 2021/1485 (Cy. 386), O.S. 2021/1490 (Cy. 390), O.S. 2022/39 (Cy. 16), O.S. 2022/55 (Cy. 21), O.S. 2022/75 (Cy. 27) ac O.S. 2022/83 (Cy. 29).

- (a) mae person wedi cwblhau cwrs o ddsau o frechlyn awdurdodedig—
  - (i) os yw'r person wedi cael y cwrs cyflawn o ddsau a bennir—
    - (aa) yn y crynodeb o nodweddion y cynnyrch a gymeradwywyd fel rhan o'r awdurdodiad marchnata ar gyfer y brechlyn awdurdodedig, neu
    - (bb) yn y cyfarwyddiadau defnyddio a gymeradwywyd fel rhan o'r awdurdodiad gan yr awdurdod trwyddedu ar sail dros dro o dan reoliad 174 o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012(1);
  - (ii) os yw'r person wedi cael dos o un brechlyn awdurdodedig a dos o frechlyn awdurdodedig gwahanol;
  - (iii) os yw'r person wedi cael o leiaf dau dds o unrhyw frechlyn y cyfeirir ato yn is-baragraff (d) o'r diffiniad o "brechlyn awdurdodedig" yn rheoliad 3(14) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol;
- (b) mae person wedi cwblhau cwrs o ddsau o frechlyn o dan raglen frechu'r Deyrnas Unedig dramor—
  - (i) os yw'r person wedi cael y cwrs cyflawn o ddsau o frechlyn fel y'i pennir yng nghanllawiau'r gweithgynhyrchydd ar gyfer y brechlyn hwnnw;
  - (ii) os yw'r person wedi cael dos o un brechlyn o dan raglen frechu'r Deyrnas Unedig dramor a dos o frechlyn gwahanol o dan raglen frechu'r Deyrnas Unedig dramor;
  - (iii) os yw'r person wedi cael dos o frechlyn awdurdodedig a dos o frechlyn o dan raglen frechu'r Deyrnas Unedig dramor."
- (c) ym mharagraff (8)—
  - (i) yn lle is-baragraff (a) rhodder—
    - (a) "mae i "brechlyn awdurdodedig" yr ystyr a roddir yn rheoliad 3(14) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol;"

---

(1) O.S. 2012/1916.

(ii) ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder—

“(ba) ystyr “y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol” yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2022(1);”;

(iii) yn is-baragraff (d), yn lle “i “marketing authorisation” yn rheoliad 8(1) o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012” rhodder “yn rheoliad 3(14) o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol”;

(iv) ar ôl is-baragraff (e) mewnosoder—

“(f) mae i “rhaglen frechu’r Deyrnas Unedig dramor” yr ystyr a roddir yn rheoliad 3(14) o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.”

(4) Hepgorer rheoliad 10C.

(5) O flaen rheoliad 11 mewnosoder—

#### **“Darpariaeth drosiannol: gofynion ynysu**

**10D.** Pan—

(a) bo’n ofynnol i berson (“P”) beidio ag ymadael â’r man lle y mae P yn byw, neu fod y tu allan iddo, yn unol â rheoliad 8(2) (“y gofyniad i P ynysu”) yn union cyn 18 Chwefror 2022, a

(b) pe bai P wedi cael hysbysiad a ddisgrifir yn rheoliad 8(1) ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw, byddai P (oherwydd cymhwyso rheoliad 10(5) fel y’i diwygir gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2022) yn cael ei eithrio rhag y gofyniad i beidio ag ymadael â’r man lle y mae P yn byw, neu fod y tu allan iddo, yn unol â rheoliad 8(2),

mae’r gofyniad i P ynysu yn peidio â bod yn gymwys ar ddechrau 18 Chwefror 2022.”

(6) Hepgorer rheoliad 16A.

(7) Yn rheoliad 18(1), hepgorer “neu 16A(1)”.

(8) Yn rheoliad 25(3)(a)(i), hepgorer “neu 16A(1)”.

(9) Yn rheoliad 26, yn lle “rheoliadau 16(1) ac 16A(1)” rhodder “rheoliad 16”.

(10) Hepgorer rheoliad 30A.

(11) Hepgorer rheoliad 40A.

(12) Yn Atodlen 8—

(a) ym mharagraff 1—

---

(1) O.S. 2022/126 (Cy. 41).

- (i) yn is-baragraff (1)(a), hepgorer “neu 16A”;
- (ii) yn is-baragraff (2)(b), hepgorer “neu 16A”;
- (b) ym mharagraff 2—
  - (i) yn is-baragraff (3)(a), hepgorer “neu 16A”;
  - (ii) yn is-baragraff (4)(b)(ii), hepgorer “neu 16A”;
  - (iii) yn is-baragraff (4)(c), hepgorer “neu 16A”;
- (c) ym mharagraff 3(3)(c), hepgorer “neu 16A”;
- (d) ym mharagraff 4(1)(b), hepgorer “neu 16A”.

**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020**

3. Yn rheoliad 3(1) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020(1), yn lle “25 Chwefror 2022” rhodder “28 Mawrth 2022”.

*Mark Drakeford*

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru  
16 Chwefror 2022

---

(1) O.S. 2020/1011 (Cy. 225) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1100 (Cy. 250), O.S. 2020/1149 (Cy. 261), O.S. 2020/1219 (Cy. 276), O.S. 2020/1409 (Cy. 311), O.S. 2020/1609 (Cy. 335), O.S. 2021/57 (Cy. 13), O.S. 2021/307 (Cy. 79), O.S. 2021/542 (Cy. 154), O.S. 2021/583 (Cy. 160), O.S. 2021/925 (Cy. 210) ac O.S. 2021/1304 (Cy. 334).